# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sea View House**

**Calon Fawr Nursing Home Ltd**
**Lon Masarn Sgeti**
**Abertawe**
**SA2 9EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sea View House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Calon Fawr Nursing Home Limited yn masnachu fel Swansea Living Solutions |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06 Hydref 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Sea View House yn mynd drwy gyfnod o newid o ran ei drefniadau staffio a rheoli. Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a oedd yn archwilio trefniadau arwain a rheoli y gwasanaeth ac yn ystyried sut mae'r arferion yn effeithio ar lesiant y bobl. Penodwyd rheolwr newydd ym mis Mai 2023. Mae'r rheolwr mewn cysylltiad â'r Unigolyn Cyfrifol yn ddyddiol ac mae wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol. Mae ymgyrch recriwtio yn mynd rhagddi wrth i'r rheolwyr geisio adeiladu tîm sefydlog o staff.

Mae'r staff yn gyfforddus yn eu rolau. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn weladwy ac mae'n hawdd mynd atynt. Fodd bynnag, mae'r bobl yn wynebu risg yn sgil dulliau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau gwael mewn cysylltiad â recriwtio a dethol staff. Rhaid i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl yn rhyngweithio'n dda â'r rheolwyr a'r staff. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i ddatblygu eu sgiliau byw ac i ddilyn eu diddordebau a'u harferion eu hunain. Fodd bynnag, mae angen i'r rheolwyr hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl yn fwy cyson drwy atgyfnerthu'r prosesau recriwtio a gwella dealltwriaeth y tîm o staff o weithdrefnau diogelu.

## Llesiant

Mae'r bobl yn profi caredigrwydd a pharch. Maent yn byw bywyd egnïol ac annibynnol, gan wneud pethau y maent yn eu mwynhau. Mae'r bobl yn cymdeithasu ag eraill y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Gallant ddefnyddio'r ardaloedd cymunedol a phreifat, a gaiff eu cadw'n lân a heb unrhyw beryglon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gasglu adborth am brofiadau'r bobl.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth amserol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod digon o staff ar gael i gefnogi iechyd meddwl y bobl a'u galluogi i gyflawni gweithgareddau wedi'u cynllunio. Mae trosiant uchel ymhlith y staff, sydd wedi golygu bod y bobl wedi gorfod addasu i aelodau newydd o staff. Mae'n ymddangos fod y bobl wedi addasu'n dda. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r gweithwyr gofal ac yn gyfforddus wrth fynd at y rheolwr newydd er mwyn cael gwybodaeth neu arweiniad.

Mae risg i ddiogelwch a llesiant y bobl gan fod y gweithdrefnau recriwtio yn anniogel. Mae trefniadau gwneud penderfyniadau gwael y rheolwyr wedi arwain at y bobl yn cael gofal gan staff nad ydynt yn addas ar gyfer eu rolau. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall y gweithdrefnau diogelu a'u cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl rhag niwed. Rhoddodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni eu bod yn ymrwymedig i gael pethau'n iawn. Byddant yn ymgymryd â hyfforddiant pellach i'w helpu i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol lle mae llesiant y bobl yn flaenoriaeth iddo.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwnaethom yr arsylwadau canlynol:

Anogir y bobl i gadw'n iach ac i wneud pethau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom y bobl yn dilyn eu harferion eu hunain wrth iddynt dreulio amser yn y lolfa a'r ardd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn ymweld â mannau o ddiddordeb yn y gymuned yn aml ac yn chwarae gemau gyda'r gweithwyr gofal. Caiff gweithgareddau dyddiol eu hystyried wrth lunio'r rotas staffio. Mae'r rhain yn cynnwys ymarfer corff a thasgau gwaith tŷ, megis coginio a glanhau. Mae'r bobl yn cwrdd â'u gweithwyr gofal yn wythnosol i gynllunio eu gweithgareddau ar gyfer yr wythnos i ddod.

Mae'r bobl yn gyfforddus gyda'r staff; mae'r sgyrsiau yn llifo'n naturiol, ac maent yn ymateb yn gadarnhaol pan roddir cyfarwyddiadau iddynt. Gwelsom y staff yn cymdeithasu â'r bobl mewn ardaloedd cymunedol a chynnig cymorth iddynt yn breifat, fel y bo angen. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr wedi symleiddio'r ddogfennaeth gofal, sydd wedi arwain at lai o ddogfennau'n cael eu dyblygu ac wedi eu galluogi i dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda'r bobl. Mae'r rotas staffio yn nodi'r oriau un i un a gomisiynwyd, sy'n sicrhau bod y bobl yn cael y lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen arnynt.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, roedd pob rhan o'r cartref a welsom yn lân ac nid oedd peryglon yno. Gwelsom fod yr ystafelloedd cymunedol yn fawr ac yn gartrefol. Yn ystod yr arolygiad llawn nesaf, byddwn yn profi p'un a oes gan y gwasanaeth raglen adnewyddu effeithiol sy'n sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i ddodrefnu a'i gynnal a'i gadw'n addas ai peidio. Gwnaethom nodi hyn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrech i recriwtio staff newydd. Mae'r bobl wedi profi newidiadau i'w gofal a'u cymorth yn ddiweddar yn sgil trosiant uchel ymhlith y staff. Mae cynlluniau ar waith i wella lefelau cadw staff yn yr hirdymor, fel bod y bobl yn profi parhad gofal gwell gan dîm sefydlog o staff. Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y bydd cymysgedd priodol o sgiliau'r staff yn cael eu darparu ar gyfer pob shifft wrth i aelodau newydd ymuno â'r tîm. Bydd pob aelod o'r staff yn cael ei gefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn cwblhau ystod o hyfforddiant ar-lein, a dywedwyd wrthym ei fod yn eu paratoi'n ddigonol er mwyn iddynt ymgymryd â'u rolau. Mae'r rheolwr wedi addasu'r patrymau shifft er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith. Mae hyn wedi gwella morál a helpu i sicrhau nad yw'r staff yn gweithio oriau gormodol.

Nid yw'r gwasanaeth yn casglu gwybodaeth lawn a boddhaol cyn cyflogi staff newydd bob amser. Er enghraifft, nid yw hanesion cyflogaeth llawn a dau eirda ysgrifenedig wedi'u casglu ar gyfer rhai aelodau o'r staff. At hynny, nid yw'r rheolwyr yn ystyried hanes troseddol ymgeiswyr na'r rhesymau pam y daeth eu cyflogaeth flaenorol i ben yn llawn wrth bennu eu haddasrwydd ar gyfer cyflogaeth. Nid yw'r asesiadau risg mewn perthynas ag euogfarnau ar dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cydnabod patrymau troseddu a all beri risg i'r bobl. Nid ydynt yn nodi'n glir y camau sydd angen eu cymryd i ddiogelu'r bobl nac yn esbonio sut y bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu. Mae'r arferion recriwtio anniogel hyn yn peri risg i lesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r rheolwr wedi ennyn ymddiriedaeth y preswylwyr a'r staff. Mae'r bobl yn hyderus wrth fynd at y rheolwr er mwyn cael cyngor a chymorth. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr wedi gwneud newidiadau er gwell. Mae'r rheolwr yn monitro ymarfer y staff yn barhaus ac yn bwriadu goruchwylio pob aelod unigol o'r staff yn ffurfiol. Mae'r staff yn teimlo bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n ymweld â'r cartref yn wythnosol ac yn mynychu cyfarfodydd staff bob mis, yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl yn aml er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu disgwyliadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n gyson mewn ffordd sy'n cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'n rhaid i'r rheolwyr ddilyn proses recriwtio a dethol drwyadl a sicrhau bod diogelwch a llesiant y bobl wrth wraidd pob penderfyniad a wneir. Mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi eu pryderon am allu'r tîm rheoli i nodi risgiau ac i ddiogelu'r bobl yn effeithiol. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu nac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall, ond mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer hyn. Mae angen i bob aelod o'r staff ddeall ei rôl yn llawn o ran amddiffyn y bobl ac ymarfer yn unol â'r polisi diogelu. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Rhoddodd y gwasanaeth bolisi recriwtio newydd ar waith yn fuan ar ôl yr arolygiad. Archwiliodd y rheolwr hefyd bob cofnod staff er mwyn nodi'r wybodaeth a'r ddogfennaeth sydd angen eu casglu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu â chyflogi staff sy'n addas ar gyfer eu rolau gofalu. Ni chafwyd gwybodaeth lawn a boddhaol, fel y nodir yn Atodlen 1 y Rheoliadau, er mwyn helpu i bennu addasrwydd y staff ar gyfer cyflogaeth. Nid yw'r camau gweithredu priodol ac amserol wedi'u cymryd i ddiogelu'r bobl wrth i wybodaeth newydd awgrymu nad yw aelodau o'r staff yn bodloni'r meini prawf addasrwydd bellach. Mae angen i'r darparwr roi systemau dethol a fetio trwyadl ar waith i'w alluogi i wneud penderfyniad ar benodi neu wrthod pob ymgeisydd o blith y staff. Mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ystyried pob darn o wybodaeth sydd ar gael er mwyn pennu a yw darpar aelod o staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ac o gymeriad da i ymgymryd â'i rôl. Mae hyn yn cynnwys | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | y wybodaeth sydd yn atodlen 1 o'r Rheoliadau. Os na fydd staff yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach, bydd yn rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd risg i'r bobl. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth wedi cael gofal, cymhwysedd a sgìl digonol.  Mae'n rhaid i'r darparwr roi diogelwch a llesiant y bobl wrth wraidd unrhyw benderfyniad a wneir. | Newydd |
| 26 | Mae diogelwch a llesiant y bobl wedi cael eu peryglu gan arferion recriwtio anniogel.  Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel.  Ni ddylai staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth oni bai eu bod yn addas i wneud hynny. | Newydd |
| 44 | Rhaid i raglen adnewyddu gael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n cynnwys dodrefn a chyfarpar addas ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. | Adolygwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/08/2023